

# Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru – 2021/2022

Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd angen gweithio o bell unwaith eto yn ystod y flwyddyn, gyda phawb yn tynnu at ei gilydd i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni. Mae'r pandemig wedi gadael ôl parhaol yr ydym i gyd yn ymaddasu iddo. Gweithio hybrid yw'r normal newydd bellach ac mae gwaith tîm hyd yn oed yn bwysicach ar bob lefel.



Mae sesiynau hyfforddi wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir drwy gydol 2021/22 a daeth llawer o bobl i'r holl sesiynau hyfforddi a chafwyd ymgysylltu da.

Mae chwe sesiwn hyfforddi wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, sydd i gyd wedi cael eu hymestyn i aelodau unigol y Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn. Mae'r sesiynau hyfforddi yn amrywiol, ac mae'r cyflwynwyr wedi cynnwys darparwyr gwasanaethau allanol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion o gronfa arall. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol a hoffem ddiolch i bawb sy'n parhau i wneud y sesiynau hyfforddi hyn yn llwyddiannus.

Mae manylion ein cynllun hyfforddi 2022/23, yn ogystal â'n cynllun gwaith 2022/23, wedi'u cynnwys yn ein cynllun busnes, sydd i'w weld ar wefan PPC: [Cronfa Bensiwn Cymru | Hafan \(partneriaethpensiwncymru.org\)](https://www.partneriaethpensiwncymru.org). Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n sawl rhan allweddol, sydd i gyd yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC, gan gynnwys Llywodraethu, Buddsoddiadau ac Adrodd, a Chyfathrebu a Hyfforddiant. Rydym yn parhau i ddatblygu polisïau newydd PPC a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas ac yn effeithiol.

Eleni mae PPC wedi ymestyn ei hystod o is-gronfeydd ymhellach drwy lansio'r is-gronfa Marchnadoedd Datblygol, sy'n dod â chyfran yr asedau cyfun i dros 70% (sy'n cynnwys ein buddsoddiadau goddefol). Mae'r ystod o is-gronfeydd a gynigir gan PPC yn rhoi cyfleoedd i'r awdurdodau cyfansoddol fodloni eu gofynion buddsoddi unigol. Mae pob cronfa yn buddsoddi mewn o leiaf ddwy is-gronfa weithredol, ac mae un gronfa yn buddsoddi mewn saith ohonynt. Mae datblygiad parhaus o ran is-gronfeydd yn weithgaredd allweddol arall a amlinellir yng nghynllun gwaith PPC ac mae'n hanfodol bod trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal gyda'r awdurdodau cyfansoddol i sicrhau bod eu hanghenion buddsoddi'n cael eu diwallu. Fel cronfa, rydym yn ffodus iawn o lefel y cydweithio a geir a hoffem ddiolch i'r awdurdodau cyfansoddol am eu cyfraniadau parhaus.

Ym mis Gorffennaf 2021, penododd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu bfinance yn Gyngorydd Dyrannu PPC a bydd yn cynorthwyo PPC i ganfod dyrannwyr ar gyfer Dosbarthiadau Asedau'r Farchnad Breifat. Ym mis Mawrth 2022, penodwyd y Dyrannwyr Dyled Breifat a Seilwaith (manylion ar y wefan) ac mae'r ymarfer caffael ar gyfer y Dyrannwr Ecwiti Preifat ar y gweill, a bydd y penodiad yn cael ei wneud yn hydref 2022. Bydd yr is-gronfeydd Dyled Breifat a Seilwaith yn cael eu lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon a bydd yr is-gronfa Ecwiti Preifat yn cael ei lansio yn 2023/24. Mae trafodaethau hefyd wedi dechrau mewn perthynas â'r dosbarth asedau eiddo.

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gymysg. Dechreuodd y cyfnod yn dda, gan ddarparu amgylchedd cefnogol i'r is-gronfeydd ecwiti, lle'r oeddent yn darparu elw absoliwt cadarnhaol. Cafodd y momentwm hwn ei wrthdroi wrth symud i ddiwedd Chwarter 4 2021 ac, yn enwedig, yn Chwarter 1 2022, a oedd yn un o'r dechreuadau gwaethaf i flwyddyn ar gyfer marchnadoedd ariannol mewn dros 50 mlynedd. Roedd ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch chwyddiant, yn gyrru anwadalwch y farchnad, a gwelwyd symiau sylweddol yn cael eu tynnu i lawr yn y marchnadoedd ecwiti ac incwm sefydlog, gan arwain at yr holl is-gronfeydd ecwiti yn cofnodi elw negyddol yn ystod chwarter olaf 2021/22. Yn y farchnad incwm sefydlog, mae'r sefyllfa wedi bod yn debyg, gyda marchnadoedd credyd yn cynnig fawr ddim diogelwch. Eithriad i hyn yw'r Gronfa Bond Elw Absoliwt, sydd wedi gallu cynhyrchu elw absoliwt cadarnhaol yn amgylchedd heriol y farchnad, gan gyflawni ei bwrpas yn gyfrwng amrywio effeithiol. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yr is-gronfeydd dros y 12 mis diwethaf.

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2022 (Ffioedd Net)				
	Dyddiad Dechrau	Asedau Dan Reolaeth (£'000)	Cronfa %	Meincnod %	Cymharol %
<b>Is-gronfeydd Ecwiti</b>					
Twf Byd-eang	6 Chwefror 2019	3,303,494	2.61	12.42	(9.81)
Cyfleoedd Byd-eang	14 Chwefror 2019	3,387,941	10.84	12.42	(1.58)
Cyfleoedd y DU	11 Hydref 2019	730,278	1.10	13.03	(11.93)
Marchnadoedd Datblygol*	29 Hydref 2021	464,615	(5.94)	(5.36)	(0.58)
<b>Is-gronfeydd Incwm Sefydlog</b>					
Credyd y DU	19 Awst 2020	574,224	(3.42)	(4.45)	1.03
Bond Llywodraeth Fyd-eang	19 Awst 2020	507,273	(3.70)	(4.17)	0.47
Credyd Byd-eang	20 Awst 2020	757,659	(4.29)	(5.10)	0.81
Cronfa Credyd Aml-asedau	11 Awst 2020	723,184	(2.28)	4.14^	
Bond Elw Absoliwt	30 Medi 2020	509,602	0.42	2.14^	

\* Sylwer bod y perfformiad ers ei dechrau.

^ Mae'r rhain yn cynrychioli targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Roeddem yn falch iawn o gyhoeddi, yn ystod 2021/22, fod PPC wedi cyhoeddi ei Hadroddiad Stiwardiaeth blynyddol cyntaf ac fe'i derbyniwyd yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU 2020. Mae Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys risg hinsawdd, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdodau cyfansoddol. Mae adroddiadau monitro risg hinsawdd chwarterol yn parhau i gael eu llunio ar gyfer yr is-gronfeydd Ecwiti ac Incwm Sefydlog, ac mae PPC wedi bod yn gweithio gyda Link Fund Solutions, Russell Investments a'r awdurdodau cyfansoddol i ddatblygu is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy, a fydd yn cael ei lansio yn hydref 2022. Mae diweddariad cynnydd blynyddol wedi'i gyhoeddi sy'n rhoi asesiad o'r cynnydd y mae PPC wedi'i wneud tuag at gyflawni'r ymrwymadau yn ei Pholisi Buddsoddi Cyfrifol a'i Pholisi Risg Hinsawdd, ac mae'n rhoi cipolwg ar y gwaith rhagorol a wnaed gan PPC ac, yn enwedig, yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol drwy gydol y flwyddyn.

Fel rhan o'i hymrwymiad i stiwardiaeth, mae PPC yn parhau i ymgysylltu â Robeco, sef ei darparwr pleidleisio ac ymgysylltu. Mae PPC yn gosod ei blaenoriaethau pleidleisio ei hun. Ar gyfer 2021/22, canolbwyntiodd PPC ar faterion a oedd yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, amrywiaeth y bwrdd, arferion gwaith a chyflog swyddogion gweithredol. Mae'r tablau isod yn crynhoi'r gweithgarwch stiwardiaeth gan Robeco ar ran PPC dros y 12 mis diwethaf:

Pleidleisiau a fwriwyd	10,904	Nifer y Cyfarfodydd	788
O blaid	9,850	Gyda'r rheolwyr	9,643
Cadw'n ôl	46	Yn erbyn y rheolwyr	1,261
Ymatal	69		
Yn erbyn	921		
Arall	18		
Cyfanswm	10,904	Cyfanswm	10,904

Nifer yr achosion ymgysylltu yn ôl pwnc					
	Ch2 21	Ch3 21	Ch4 21	Ch1 22	Cyfanswm
Yr Amgylchedd	45	28	50	47	170
Cymdeithasol	50	31	54	20	155
Llywodraethu Corfforaethol	31	18	37	19	105
Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)	-	16	29	15	60
Dadleuon Byd-eang	10	8	20	25	63
Cyfanswm	136	101	190	126	553

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran sicrhau bod cyfuno asedau yn llwyddiant. Mae gwaith i'w wneud o hyd i gyflawni ein potensial llawn ac, ymhen ychydig flynyddoedd, dylem fod yn agos at y pwynt lle mae'r holl asedau addas wedi'u cyfuno. Bydd gofynion ein hawdurdodau cyfansoddol yn parhau i esblygu, boed hynny oherwydd amodau economaidd newidiol, deddfwriaeth newydd y Llywodraeth neu weithredu nodau cynaliadwyedd, a bydd PPC yn parhau i fod wrth eu hochr nhw ar y daith.